

# Prentisiaethau Cynhwysol

Cynllun Gweithredu ar Anabledd ar gyfer Prentisiaethau

**2018-21**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Gweinidog | 1 |
| Cefndir | 2 |
| Astudiaeth Achos: Twm Draper, BT | 4 |
| Cysondeb â Pholisïau Eraill Llywodraeth Cymru | 5 |
| Astudiaeth Achos: Corinna Roberts, Swyddfa Eiddo Deallusol | 7 |
| Astudiaeth Achos: Nicholas D'Cruz, Café Darcy | 8 |
| Beth rydyn ni wedi ei wneud hyd yn hyn? | 9 |
| Canfyddiadau'r Gweithgor Prentisiaethau Cynhwysol | 10 |
| Astudiaeth Achos: Sarah Jayne Mawdsley, Ysbyty Gwynedd | 11 |
| Astudiaeth Achos: Caio Jones, Canolfan Iechyd Cricieth | 14 |
| Sut mae llwyddiant yn edrych? | 15 |
| Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant? | 16 |
| Gwybodaeth Bellach | 17 |
| Dogfennau Cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru | 18 |
| Geirfa | 19 |
| Atodiad A | 21 |
| Atodiad B | 30 |


Prentisiaethau Cynhwysol: Cynllun Gweithredu ar Anabledd ar gyfer Prentisiaethau 2018-21
ISBN Digidol: 978-1-78964-506-4

© Hawlfraint y Goron 2018 WG36564

# Rhagair y Gweinidog



Gwyddom fod cyflogaeth yn bwysig er mwyn hybu annibyniaeth, hyder, iechyd a lles pobl. Ac eto dim ond 45% o'r bobl anabl mewn oed gweithio yng Nghymru sydd mewn cyflogaeth, o gymharu ag 80% o'r bobl nad ydynt yn anabl. Un o brif nodau Llywodraeth Cymru yw symud tuag at gymdeithas gynhwysol sy'n galluogi pobl; un lle mae cyfleoedd i bawb. Mae sicrhau bod cyfleoedd i bobl anabl ddod o hyd i waith, a chadw'r gwaith hwnnw, yn elfen allweddol o'n Cynllun Cyflogadwyedd a gyhoeddwyd yn gynharach eleni.

Mae'r Rhaglen Brentisiaethau yn llwybr wedi'i brofi at gyflogaeth gynaliadwy ac rwy'n falch fod gennym Raglen Brentisiaethau lwyddiannus yma yng Nghymru. Wedi dweud hynny, rwy'n cydnabod bod cyfansoddiad y cohort o brentisiaethau, o safbwynt poblogaeth Cymru, yn llawer mwy cynrychioladol o'r gymdeithas amrywiol yr ydym yn byw ynddi. Er 2016, rydym wedi bod yn ariannu Arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i ysgogi newid diwylliant yn y rhaglen a chynyddu nifer yr unigolion o grŵpiau gwarchodedig sy'n cymryd rhan. Er gwaethaf ymdrechion parhaus ar ran swyddogion, ein rhwydwaith o ddarparwyr prentisiaethau, cyflogwyr a phartneriaid eraill, mae cael mwy o ddysgwyr anabl i ymwneud â'r rhaglen yn dal i fod yn her; her yr ydym yn benderfynol o'i goresgyn.

Yn gynharach eleni cyhoeddodd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad yn dwyn y teitl Prentisiaethau yng Nghymru a oedd yn tynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng cyfran y Prentisiaid anabl yng Nghymru ac yn Lloegr. Roedd yr adroddiad yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu cynllun gweithredu clir sy'n benodol ar gyfer pobl ifanc anabl.

Er mwyn gwneud hyn, sefydlwyd Gweithgor Prentisiaethau Cynhwysol yn cynnwys sefydliadau anabledd arbenigol, a hoffwn ddiolch i'r sefydliadau hyn. Rydym wedi gweithio gyda'r grŵp er mwyn canfod rhwystrau posibl a allai fod yn atal prentisiaethau a chynnig atebion ymarferol a fydd yn chwalu'r rhwystrau hyn. Penllanw'r gwaith hwn yw'r Cynllun Gweithredu Cynhwysol hwn ar Anabledd, ac rwy'n siŵr y byddwch yn cytuno ei fod yn gam i'r cyfeiriad cywir. Mae Atodiad A y cynllun yn nodi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt; camau ymarferol a fydd yn ein helpu i symud tuag at raglen fwy cynhwysol a fydd yn cyfrannu at ein gweledigaeth o Gymru gyfartal a chynhwysol.



**Eluned Morgan AM**
**Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes**

[1]http://www.senedd.cynulliad.cymru/documents/s72280/Adroddiad%20PDF%20700kB.pdf

# Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu Cymru deg a chyfartal lle mae unigolion yn cael canlyniadau cyfartal a mynediad cynhwysol at sgiliau prentisiaethau mewn gweithlu sy'n adlewyrchu cymunedau. Mae angen i gyflogwyr allu recriwtio a chadw'r talentau gorau posibl o bob cefndir er mwyn datblygu eu busnesau. Mae ar bobl anabl angen cyfle a mynediad at gefnogaeth berthnasol er mwyn gallu datblygu gyrfaoedd llwyddiannus a chyfrannu at gymdeithas.

Adlewyrchir yr ymrwymiad hwn mewn cynlluniau a strategaethau cenedlaethol. Mae ein polisi prentisiaethau, Cysoni'r model Prentisiaethau ag anghenion economi Cymru , a gyhoeddwyd yn 2017, yn dangos ein hymrwymiad i wella mynediad, cydraddoldeb a chyfle cyfartal. Mae'r cynllun hwn yn ategu ac yn cefnogi'r gwaith o weithredu Ffyniant i Bawb, a'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr y llynedd.  Yn ychwanegol at hyn, mae'r Cynllun Cyflogadwyedd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r rhai sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur, y rhai economaidd anweithgar a'r rhai sy'n wynebu perygl o golli eu swyddi i ddod o hyd i waith.

Yn y cyd-destun hwn mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd  i helpu i ganfod atebion i'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl. Mae'r Model Cymdeithasol yn annog chwalu'r rhwystrau hyn sy'n bodoli mewn cymdeithas, neu leihau eu heffeithiau, yn hytrach na cheisio cywiro nam neu gyflwr iechyd unigolyn. Mae'n grymuso pobl anabl ac yn annog cymdeithas i fod yn fwy cynhwysol fel bod pobl anabl yn cael yr un cyfleoedd â phawb arall. Anogir pob darparwr gwasanaeth cyhoeddus i ddefnyddio'r model cymdeithasol wrth ystyried trefniadau anabledd a gwybodaeth am gydraddoldeb a chyflogaeth.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol a Sefydliadau Addysg Bellach i nodi a chefnogi pobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.  Er nad yw darparu Prentisiaethau yn dod o fewn cwmpas y ddeddf hon, mae egwyddorion y ddeddf yn nodi arferion da y byddwn yn eu mabwysiadu.

Roedd rhwystrau a oedd yn atal pobl ifanc â nodweddion gwarchodedig rhag ymgymryd â rhaglen brentisiaeth yn thema allweddol yn adroddiad thematig Estyn, Rhwystrau rhag Prentisiaeth. Roedd yr adroddiad yn cynnwys canfyddiadau adolygiad o'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl wrth ymgymryd â rhaglenni prentisiaeth. Roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am y rhwystrau a wynebid gan ddysgwyr o grŵpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Cyhoeddwyd adroddiad dilynol, Chwalu rhwystrau rhag prentisiaethau, yn 2015.

Yn Chwefror 2018, cyhoeddodd Pwyllgor yr Economi a Seilwaith Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad yn dwyn y teitl Prentisiaethau yng Nghymru . Roedd yr Adroddiad yn cynnwys 14 o argymhellion, ac un o'r rhain oedd y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu cynllun gweithredu clir sy'n benodol ar gyfer pobl ifanc anabl i fynd i'r afael â'r diffyg cynrychiolaeth o bobl anabl mewn prentisiaethau. Roedd adroddiad y Pwyllgor yn nodi'r rhwystrau a allai fod yn atal pobl anabl rhag derbyn prentisiaethau, ac yn nodi bod prentisiaethau ar gyfer pobl anabl yn brin. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru, ac mae wedi cydnabod bod angen gwella'r sefyllfa.

[2]Cysoni'r Model Prentisiaethau ag Anghenion Economi Cymru: https://llyw.cymru/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/apprenticeships-skills-policy-plan/?skip=1&lang=cy
[3]https://llyw.cymru/topics/educationandskills/skillsandtraining/employability-plan-for-wales/?skip=1&lang=cy
[4]Model Cymdeithasol o Anabledd:  https://llyw.cymru/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/disability/socialmodel/?skip=1&lang=cy
[5]Prentisiaethau yng Nghymru

## Cefndir

Ar hyn o bryd nid yw cyfran y bobl anabl sy’n dilyn prentisiaeth yn gymesur â phoblogaeth anabl Cymru. Mae gan un o bob pum person oed gweithio yng Nghymru anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor, fel sy’n cael ei ddiffinio yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Er hyn, ychydig iawn o brentisiaid anabl sydd yng Nghymru; gweler y tabl.

| | 2013/ 2014 | 2014/ 2015 | 2016/ 2017 | 2017/ 2018 |
|---|---|---|---|---|
| **Anabledd (yn effeithio ar allu i ddysgu a/neu ddefnyddio cyfleusterau cyffredinol)** | 1.1% | 1.2% | 1.3% | 1.5% |
| **Anabledd ac Anawsterau Dysgu (yn effeithio ar allu i ddysgu a/neu ddefnyddio cyfleusterau cyffredinol)** | 3.4% | 4.2% | 4.6% | 5.3% |

Rhaid nodi bod y data yn ddibynnol ar hunan-ddatganiad gan y prentis. Mae’n bosibl nad yw pob prentis yn rhannu gwybodaeth o’r fath, ac ni wyddom i ba raddau y mae hyn yn digwydd. Yn ychwanegol at hyn, dim ond anabledd neu anawsterau dysgu sy’n effeithio ar allu i ddysgu a/neu ddefnyddio cyfleusterau cyffredinol sy’n cael eu hystyried yn y data.

Er mwyn deall y rhesymau sylfaenol dros y nifer isel hwn, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori â phartneriaid o sefydliadau anabledd arbenigol, ac wedi gweithio gyda nhw i ddatblygu cynllun gweithredu ‘cynhwysol’.




(I'r chwith i'r dde) Arweinydd Tîm Gareth Martin a Twm Draper

## Twm Draper
## BT

Mae Twm Draper, 20 oed, o Gilfach Goch yn rheolwr achos helpu defnyddwyr llawn amser gyda BT yn Stadium House, yng nghanol Caerdydd. Gorffennodd brentisiaeth gofal cwsmeriaid lefel tri 18 mis ym mis Mawrth ac mae'n cwblhau hyfforddiant yn y ei weithle.

Mae gan Twm nam ar y clyw yn y ddwy glust a gafodd ei ddiagnosio pan oedd yn dair oed ac mae'n rhaid iddo wisgo teclyn clyw yn y ddwy glust.

Ar ôl y chweched dosbarth, doedd Twm ddim am fynd i'r brifysgol, ond am fynd yn syth i weithio i gwmni mawr a dechrau ennill arian. Roedd yr ysgol yn anodd i Twm gan ei fod yn cael anhawster gwrando ac ysgrifennu pethau i lawr. Ni chafodd rywun i gymryd nodiadau ar ei ran i'w gynorthwyo yn y dosbarth tan ei flwyddyn olaf yn yr ysgol, ac yntau yn ail flwyddyn ei Safon Uwch, a dioddefodd ei ganlyniadau yn sgil hynny.

Mae Twm yn annog pobl i ddweud eu dweud cyn gynted â'u bod yn sylweddoli eu bod angen cymorth, boed yn yr ysgol, yn y gwaith, neu wrth ddysgu drwy brentisiaeth. Roedd yn arfer poeni sut byddai'n ymdopi yn y gwaith ond dyw e heb gael unrhyw broblem. Mae Twm yn defnyddio clustffonau wedi'u haddasu i rwystro sŵn yn y cefndir a dyw e ddim wedi bod angen trafod ei nam ar y clyw gyda'i gyflogwyr ers hynny.

Mae Twm yn bwriadu parhau gyda BT a chael cymaint o brofiad â phosibl ac mae'n gobeithio mynd ymlaen i weithio ym maes adnoddau dynol.

# Cysondeb â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru

## Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi ym mis Rhagfyr 2017 ac mae'n dangos newid mawr o ran polisi, cyflawni a dulliau gweithio. Mae'r Cynllun yn amlinellu gweledigaeth glir o economi ac iddi sylfeini cadarn, diwydiannau wedi'u hatgyfnerthu a rhanbarthau cynhyrchiol.

Mae pobl Cymru'n ganolog i'r ymyriadau drwy gydol y Cynllun. Mae'n nodi nifer o newidiadau allweddol i'n dull o ddatblygu'r economi, sydd i gyd yn meddu ar y potensial i gefnogi ffyniant i bawb a thwf cynhwysol.

Mae'r Cynllun yn amlinellu model gweithredu newydd ar gyfer cymorth ariannol uniongyrchol i fusnesau, a lansiwyd ym Mai 2018. Mae'r model gweithredu newydd, sy'n cael ei weithredu drwy'r Contract Economaidd, Meysydd Gweithredu ac un Gronfa Dyfodol yr Economi gyfunol, yn sefydlu perthynas newydd â busnesau, sy'n seiliedig ar egwyddorion buddsoddiad cyhoeddus â phwrpas cymdeithasol. Gallai'r Contract Economaidd, yn fwyaf arbennig, annog a hybu ymddygiadau busnes sy'n fwy cefnogol i weithleoedd cynhwysol, amrywiol a thecach. Mae'n gofyn i fusnesau sy'n chwilio am gymorth ariannol uniongyrchol ymrwymo i dwf, gwaith teg, hybu iechyd, uwchsgilio a dysgu yn y gweithle a lleihau eu hôl troed carbon. Mae'n rhoi cyfle i gymryd rhan mewn deialog gyda chyflogwyr am nifer o wahanol faterion a allai helpu unigolion yn ogystal â'u busnesau. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo a chyfeirio at ganllawiau a chymorth i fusnesau i'w helpu pan fyddant yn cyflogi pobl anabl.

## Cynllun Cyflogadwyedd

Fel rhan o strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, 'Ffyniant i Bawb', cyhoeddasom Gynllun Cyflogadwyedd trawslywodraethol ym mis Mawrth eleni. Mae'r cynllun cyflogadwyedd hwn yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer economi sydd wedi'i seilio ar sgiliau o safon uchel a phobl sydd â'r gallu i ffynnu, ac yn nodi sut y byddwn yn mynd ati i gyflawni hyn.

Roedd y Cynllun yn sefydlu rhaglen uchelgeisiol i gyflwyno system fwy effeithiol i gefnogi cyflogadwyedd, gan ganolbwyntio ar anghenion amrywiol unigolion a dull newydd dynamig o fynd i'r afael â'r sgiliau amrywiol sydd eu hangen ledled y wlad. Yn ogystal â phrosiectau a chynlluniau newydd arloesol, roedd y Cynllun yn amlinellu targedau deng mlynedd ymestynnol er mwyn dangos y ffordd i bob partner sy'n ymwneud â chyflogadwyedd er mwyn i ni fod yn fwy cydlynus ac effeithlon, a chael ein huno gan nodau cyffredin.

Rydym yn cydnabod nad oes hanner digon o bobl anabl mewn gwaith. Mae nifer o ymrwymiadau sydd wedi'u hamlinellu yn ein Cynllun Cyflogadwyedd yn ceisio mynd i'r afael â hyn. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i geisio mynd i'r afael â'r materion hyn, gan roi sylw i agwedd cyflogwyr, cynllunio swyddi ac arferion gweithio.

Mewn partneriaeth â'r sector, byddwn yn gosod targed ystyrlon a fydd yn adlewyrchu anghenion a dymuniadau pobl anabl ledled Cymru. Drwy osod targed, rydym yn gobeithio hybu'r newid sydd ei angen mewn gweithleoedd ac yn ein cymdeithas er mwyn chwalu'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl a phobl â chyflyrau iechyd hirdymor sy'n chwilio am waith. Byddwn yn cyhoeddi targed ar gyfer cyflogaeth ac anabledd cyn diwedd 2018, er mwyn pwysleisio ein hymrwymiad i'r agenda hon.

Byddwn yn parhau i weithio mewn cysylltiad agos â Llywodraeth y DU, drwy'r Uned Gwaith ac Iechyd a'r Adran Gwaith a Phensiynau, er mwyn cyfrannu at y dasg o gyrraedd y targed o gael miliwn yn rhagor o bobl anabl mewn gwaith yn y DU erbyn 2027. Hoffem weld mwy o bobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd cyfyngus yn cael canlyniadau cadarnhaol yng Nghymru.

[6]Ffyniant i Bawb https://llyw.cymru/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy
[7]https://beta.llyw.cymru/cynllun-cyflogadwyedd?_ga=2.57306410.1407690498.1542009252-245490440.1541498214
[7]Cynllun Cyflogadwyedd (2018): https://llyw.cymru/topics/educationandskills/skillsandtraining/employability-plan-for-wales/?skip=1&lang=cy

# Cysondeb â pholisïau eraill Llywodraeth Cymru

## Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol

Cyhoeddwyd ein Fframwaith a Chynllun Gweithredu newydd, Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol ar gyfer ymgynghoriad ar 22 Hydref 2018.

Mae'r Fframwaith yn nodi sut rydym yn mynd i'r afael â rhwystrau cymdeithasol sy'n atal cydraddoldeb a chynhwysiant fel bod pobl anabl yn cael yr un cyfleoedd â phawb arall.  Datblygwyd y Fframwaith newydd yn dilyn llawer o ymgysylltu â phobl anabl a'r sefydliadau sy'n eu cynrychioli ac mae'n adeiladu ar y gwaith rydym wedi ei wneud ym mhob rhan o'r Llywodraeth ers cyhoeddi'r Fframwaith gwreiddiol yn 2013, 'Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol'. Bydd ein Fframwaith newydd yn ein helpu i barhau i fynd i'r afael â'r agweddau hynny ar anghydraddoldeb sydd o'r pwys mwyaf i bobl anabl o bob oed yng Nghymru.

Cefnogir y Fframwaith gan Gynllun Gweithredu sy'n amlinellu ystod eang o gamau gweithredu sy'n cael eu rhoi ar waith yn barod gan Lywodraeth Cymru er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r prif rwystrau a nodwyd gan y bobl anabl eu hunain, gan gynnwys trafnidiaeth, cyflogaeth, tai a mynediad i adeiladau a lleoedd.

Mae'r Fframwaith newydd hefyd wedi'i seilio ar y Model Cymdeithasol o Anabledd, ac mae'n cydnabod bod rhwystrau o ran agwedd, rhwystrau sefydliadol a rhwystrau amgylcheddol yn atal cydraddoldeb a chynhwysiant, a bod rhaid chwalu'r rhwystrau hyn er mwyn sicrhau tegwch i bawb.




Corinna Roberts

## Corinna Roberts
## Swyddfa Eiddo Deallusol

Llwyddodd Corinna Roberts, 26 oed, sy'n dod o Donypandy, i gwblhau Prentisiaeth Sylfaen a Phrentisiaeth mewn Gweinyddu Busnes. Mae hi hefyd wedi sicrhau swydd barhaol yn y Gwasanaeth Sifil, gan ymdopi ar yr un pryd â chyfrifoldebau bod yn rhiant a dysgu rheoli ei hiechyd meddwl. Mae hi'n credu bod cwblhau prentisiaeth wedi rhoi hwb i'w hyder a'i sgiliau ac wedi dod â gwerth a syniadau newydd i'r Swyddfa Eiddo Deallusol (IPO) yng Nghasnewydd lle mae hi'n gweithio.

Gan ei fod yn cael trafferth gydag anhwylder gorfodaeth obsesiynol ddifrifol, pryder ac iselder pan ymunodd â IPO, mae Corinna bellach yn helpu eraill fel swyddog amrywiaeth a chynhwysiant ac mae wedi sefydlu'r rhaglen ymwybyddiaeth iechyd meddwl gyntaf o'i fath.

Ar ôl hyfforddi fel hyrwyddwr iechyd meddwl ac fel cynrychiolydd cynghreiriaid ar gyfer y Rhwydwaith LGBT, mae hi wedi rhedeg sesiynau ymwybyddiaeth ar draws y Llywodraeth gydag IPO a Thy'r cwmnïau.

Hi oedd y prentis cyntaf yn IPO i weithio'n rhan-amser ac o gartref ond roedd yn gallu cwblhau'r rhaglen yn ystod yr un cyfnod â'i chyfoedion wrth gydbwyso cyfrifoldebau rhieni a materion iechyd.

Gyda chefnogaeth y darparwr hyfforddiant ALS Training, mae'n bwriadu parhau i ddysgu trwy symud ymlaen naill ai i Brentisiaeth Uwch (Lefel 4) neu i gymhwyster gan y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu neu gan y Brifysgol Agored.



Nicholas D'Cruz

## Nicholas D'Cruz
## Café Darcy

Mae gan Nicholas D'Cruz, 25 oed o Abertawe, anableddau dysgu cysylltiedig ag awtistiaeth sy'n effeithio ar ei allu i gyfathrebu a bod yn annibynnol. Roedd eisiau swydd a fyddai'n ei helpu i gyrraedd ei nod hirdymor o symud allan o gartref gofal, i lety â chymorth.

Fe wnaeth ei weithiwr cymdeithasol a'r Ganolfan Byd Gwaith ei roi mewn cysylltiad ag Ymddiriedolaeth Shaw, elusen sy'n helpu pobl i ymuno â'r byd gwaith, cael addysg a hyfforddiant a gwella eu lles. Cafodd gymorth gan yr Ymddiriedolaeth i greu cynllun a fyddai'n ei helpu i feithrin y sgiliau angenrheidiol i fyw ar ei ben ei hun am y tro cyntaf.

Aeth Michelle Hunter Smith, gweithiwr allweddol Ymddiriedolaeth Shaw, ati i'w helpu i gael lleoliad gwaith yn Café Darcy yng Nghanolfan Fusnes Darcy, Sgiwen. Erbyn hyn, mae ar Brentisiaeth Sylfaenol Lefel 2 mewn Lletygarwch gyda'r darparwr hyfforddiant People Plus Cymru, gyda chymorth 'Mynediad i Waith' yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Nick yn teithio 40 munud o'i gartref yng Nghlydach i weithio, ac yn dweud bod bwrw prentisiaeth wedi newid ei fywyd. Mae ganddo swydd brysur sy'n cynnwys glanhau, casglu llestri a siarad â chwsmeriaid, ac mae newydd ddechrau paratoi bwyd.

Mae ei brentisiaeth wedi rhoi hwb ariannol iddo, ac yn caniatáu iddi fynd i fwy o lefydd a gwneud mwy o bethau. Aeth i Silverstone eleni, ac mae'n ceisio gweld cymaint ag y gall o sioeau cerdd. Mae wedi helpu gyda'i hyder hefyd, ac mae'n dweud yr hoffai ddysgu sut i goginio a byw'n annibynnol ac wedyn, pwy a ŵyr beth ddaw yn y dyfodol.

## Beth rydyn ni wedi ei wneud hyd yn hyn?

Mae ein hymgyrch i sicrhau canlyniadau cyfartal yn canolbwyntio ar chwalu rhwystrau posibl a allai fod yn atal pobl anabl rhag cael prentisiaeth, gan gydnabod ei bod yn bosibl bod ar y grŵp hwn angen cymorth ychwanegol wedi'i gynllunio'n unigol er mwyn parhau a llwyddo.

Mae gan brentisiaid anabl hawl i gymorth gan ein cronfa Cymorth Dysgu Ychwanegol (ALS). Mae'r gronfa hon yn hwyluso cymorth i brentisiaid i'w helpu i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael addysg a hyfforddiant.Gellir defnyddio'r gronfa, er enghraifft, i dalu am gymorth dynol neu dechnegol. Gall darparwyr prentisiaethau gael mynediad uniongyrchol i'r gronfa gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cymorth ychwanegol i ddysgu sy'n deillio o anhawster dysgu a/neu anabledd, ac sydd ei angen er mwyn rhoi'r grym i ddysgwyr unigol gyflawni. Rydym yn annog darparwyr i ddefnyddio'r gronfa er mwyn sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o gymorth i brentisiaid anabl.

Rydym yn cydnabod bod ar rai pobl anabl angen cymorth i ymgymryd â'r rhaglen ac yn ystod eu cyfnod mewn cyflogaeth, a hynny'n ychwanegol at y cymorth sydd ar gael drwy'r gronfa o bosibl. I'r perwyl hwn, rydym wedi bod yn gweithio mewn cysylltiad agos â Remploy er mwyn cyfateb y rhai sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Dewis Gwaith a'r rhaglen Gwaith ac Iechyd ar ôl hynny â chyfleoedd ar gyfer prentisiaeth. Mae hyn yn dod â gwaith dwy raglen bwysig at ei gilydd, gan sicrhau bod pobl anabl yn gallu cael mynediad at waith a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau a fydd yn eu helpu i gadw swydd a symud ymlaen.

Yn ddiweddar, rydym wedi datblygu a chyflwyno hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth penodol ar gyfer darparwyr hyfforddiant prentisiaethau, gan gynnwys sesiynau addysgiadol a rhyngweithiol. Cynlluniwyd yr hyfforddiant er mwyn ennyn brwdfrydedd aseswyr, eu galluogi a darparu technegau y gallant eu defnyddio yn eu gwaith gyda dysgwyr. Daeth nifer dda ynghyd i'r sesiynau hyn a oedd yn cynnwys trosolwg o'r Ddeddf Cydraddoldeb a Dyletswyddau Cydraddoldeb i Gymru; y Model Cymdeithasol o Anabledd; Iechyd Meddwl; Ymwybyddiaeth o Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig; a Stereoteipio Rhywedd.

I gefnogi'r hyfforddiant rydym wedi datblygu Pecyn Cymorth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a gyhoeddwyd ar-lein ym Mehefin 2018. Mae'n cynnwys ystod o adnoddau a gwybodaeth ddefnyddiol, sy'n cynnwys canllawiau, cynghorion, taflenni gwaith, fideos, gwe-gysylltiadau a dolenni ar y cyfryngau cymdeithasol sy'n llawn gwybodaeth. Mae'n ymdrin â phynciau fel Ymwybyddiaeth o Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig, Ymwybyddiaeth o Anabledd ac Anhwylderau Ymddygiad Emosiynol.

Rydym wedi gwella ein deunyddiau marchnata yn y maes hwn drwy ddefnyddio astudiaethau achos a oedd yn canolbwyntio ar ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig er mwyn hybu amrywiaeth yn y rhaglen brentisiaethau. Mae un ar bymtheg allan o'r pedwar ar bymtheg o ddarparwyr prentisiaethau arweiniol wedi ymrwymo i lofnodi'r addewid 'Amser i Newid' ac maent yn ceisio datblygu dull rhagweithiol o ymdrin â chynlluniau gweithredu ar Iechyd Meddwl. Rydym wedi datblygu adran newydd o'r Porth Sgiliau Busnes i gefnogi ac annog cyflogwyr i recriwtio rhagor o bobl anabl. Mae'r safle hwn yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau hanfodol am gymorth mewn gwaith a rhaglenni fel Mynediad i Waith.

Mae'r gweithgaredd hwn yn cael ei gefnogi gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW). Er 2016, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ariannu Arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol y Ffederasiwn. Mae'r Arweinydd hwn wedi bod yn darparu strwythur cefnogol i'r rhwydwaith darparwyr prentisiaethau i'w helpu i gynyddu nifer y bobl anabl a'r bobl o gymunedau duon a

[8] https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/cyflogi-pobl-anabl

# Canfyddiadau'r Gweithgor Prentisiaethau Cynhwysol

Datblygwyd y cynllun hwn ar ôl ymgynghori â phartneriaid o sefydliadau anabledd arbenigol yng Nghymru. Ym Mehefin 2018, cynhaliwyd digwyddiad 'Grŵp Bord Gron ar Anabledd - Prentisiaethau Cynhwysol' a fynychwyd gan bob un o'r prif randdeiliaid anabledd yng Nghymru. Yn dilyn hynny, sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Brentisiaethau Cynhwysol a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Cyfarfu'r Grŵp am gyfres o gyfarfodydd yn ystod haf a hydref 2018 i geisio dod o hyd i rwystrau a gwendidau posibl yn y trefniadau presennol a helpu i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu ar Anabledd hwn ar gyfer Prentisiaethau Cynhwysol.

Yn ogystal â swyddogion o Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â meysydd polisi amrywiol, cynrychiolwyd y sefydliadau a ganlyn ar y Grŵp:

- Anabledd Cymru
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Elite Supported Employment
- Leonard Cheshire
- Sefydliad y Deillion Merthyr Tudful
- Nationwide Access Consultants
- Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar
- Arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol NTfW
- Ymddiriedolaeth Shaw
- Remploy
- Canolfan Genedlaethol Iechyd Meddwl, Prifysgol Caerdydd
- Whizz-Kidz

Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd yn bresennol yn y cyfarfodydd i gynnig cyngor.

Trafodwyd y rhwystrau a'r gwendidau a ganlyn yn y trefniadau presennol:

### Marchnata a chodi ymwybyddiaeth

- Yn gyffredinol, nid yw pobl anabl yn teimlo bod digon o gyfleoedd iddynt gael prentisiaeth. Nid yw'r deunyddiau marchnata presennol yn eu cynrychioli ac yn aml iawn nid yw prentisiaethau'n cael eu cyflwyno iddynt fel dewis hyfyw.
- Teimlai'r Grŵp nad yw'r Gwasanaeth Paru Prentisiaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn hygyrch iawn ac nad yw'r wefan yn hawdd i'w defnyddio.
- Teimlid bod angen gwneud rhagor i sicrhau bod cyflogwyr yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael pe baent yn cyflogi prentis anabl.

### Modelau Rôl

- Mae angen i ni nodi pobl anabl a all fod yn fodelau rôl fel bod pawb yn gallu gweld bod cyfleoedd ar gyfer prentisiaeth yn opsiwn go iawn iddynt hwy – modelau rôl y gall pobl uniaethu â hwy er mwyn gwerthu manteision prentisiaeth. Dylai modelau rôl unigol fod yn ysbrydoliaeth i bobl eraill a dylent allu siarad am eu canlyniad llwyddiannus.
- Yn ychwanegol at hyn mae angen nodi modelau rôl o blith cyflogwyr a all weithio'n strategol er mwyn sicrhau mwy o ymgysylltu ar draws y sectorau sgiliau.

### Cymhellion/Ysgogiad

- Yn hanesyddol, nid yw cymhellion megis profiad gwaith â chymhorthdal a chymhellion ariannol i gyflogwyr wedi arwain at unrhyw newid yn nifer y cyfleoedd. Roedd y Grŵp yn unfryd yn erbyn y math hwn o gymhelliant. Teimlai'r Grŵp fod angen canolbwyntio mwy ar newid ffyrdd o feddwl, systemau a dulliau gweithredu cyflogwyr drwy ddefnyddio cymhellion anariannol er enghraifft darparu hyfforddwyr swyddi.

### Meini Prawf Hyblyg ar gyfer Ymuno a Gadael

- Teimlai'r Grŵp nad yw'r rheolau a'r gofynion presennol ar gyfer prentisiaethau yn ddigon hyblyg i hybu cynhwysiant. Yn fwy penodol, gallai'r angen am gyflogaeth am o leiaf 16 awr a gorfod cwblhau Sgiliau Hanfodol ar lefel dau fod yn rhwystr i rai pobl anabl. Yr awgrym oedd y dylid gwneud y system yn fwy hyblyg heb amharu ar enw da ac ansawdd y brand prentisiaethau. Byddai angen bod yn ofalus er mwyn sicrhau bod pobl anabl yn gallu dilyn hyfforddiant angenrheidiol i ffwrdd o'r gwaith. Fel arfer, mae mynychu hyfforddiant i ffwrdd o'r gwaith yn un o'r gofynion a nodir yn nhelerau ac amodau'r brentisiaeth.




(I'r chwith i'r dde) Aled Wyn Williams, Rheolwr Fferyllfa a Sarah Jayne Mawdsley

## Sarah Jayne Mawdsley
## Ysbyty Gwynedd

Mae Sarah-Jayne Mawdsley, 19 oed o Gaernarfon, yn brentis cynorthwyydd fferyllfa yn Ysbyty Gwynedd ym Mangor. Mae ganddi Syndrom Down Mosaic, sef cyflwr sy'n effeithio ar ddim ond un mewn 100,000 o bobl yn y DU, sy'n golygu bod ganddi ddau fath neu fwy o wahanol gelloedd yn ei chyfansoddiad geneteg.

Gadawodd Sarah-Jayne yr ysgol gyda sawl TGAU ond fel llawer o bobl ifanc yn eu harddegau doedd ganddi ddim syniad beth oedd hi eisiau ei wneud nesaf. Ymunodd â Phrosiect Search, sef rhaglen interniaeth blwyddyn sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth i ennill sgiliau a phrofiad i symud i gyflogaeth â thâl.

Yng Nghymru, mae'n cael ei gyllido fel rhan o brosiect Engage to Change a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Helpodd y cynllun iddi ddechrau cwrs Sgiliau Bywyd a Gwaith yng Ngholeg Llangefni ac aeth ymlaen i weithio'n rhan-amser mewn siop. Mae bellach yn gweithio tuag at NVQ Lefel Dau mewn Gwasanaethau Fferyllol ac mewn Gwasanaethau Cwsmeriaid, ar brentisiaeth dwy flynedd yn yr ysbyty. Mae ei rôl yn cynnwys cymryd presgripsiynau, ateb y ffôn, cyfarch cleifion a'u cynghori ar amseroedd aros. Yn ddiweddar mae wedi ysgwyddo dyletswyddau gweinyddu newydd fel ffeilio a sganio.

Mae Sarah-Jayne yn dweud nad yw cael y cyflwr yn ei hatal rhag datblygu yn ei gyrfa. Cafodd ei hysbrydoli gan fideo ar Facebook am athro ysgol feithrin yn yr Ariannin oedd â Syndrom Down ac mae'n credu y gall wneud unrhyw beth os yw'n gweithio'n galed ac yn benderfynol.

- Er mwyn galluogi prentisiaethau i fod yn fwy cynhwysol awgrymwyd y dylid cyflwyno math o lwybr 'cyn prentisiaeth' ar lefel is a fyddai'n symud ymlaen i brentisiaeth. Teimlai'r Grŵp y dylid ystyried a allai'r rhaglen Cymru'n Gweithio, pan fydd yn cael ei chyflwyno yn 2019, gynnig y cymorth cyn prentisiaeth angenrheidiol.

## Data a datgelu

- Trafodwyd y diffiniad o anabledd drwy gydol y sesiynau a nodwyd y gwahaniaeth rhwng y diffiniad dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 a'r hyn sy'n cael ei gategoreiddio fel anabledd cofrestredig. Teimlid bod angen rhywfaint o ymchwil i'r data rydym yn eu casglu a sut maent yn dylanwadu ar bolisi – cyfeiriwyd er enghraifft at y gwaith sy'n cael ei wneud gan Uned Her Cydraddoldeb yr Alban.
- Roedd y Grŵp yn cydnabod bod datgelu yn fater pwysig a oedd weithiau'n achosi problemau gan fod pob prentis mewn cyflogaeth. Cydnabyddid nad oes rhaid i brentisiaid ddatgelu nam neu gyflwr iechyd os nad ydynt yn dymuno gwneud hynny. Teimlid y gallai prentisiaid fod yn llai tebygol o ddatgelu gwybodaeth o'r fath na dysgwyr ar raglenni hyfforddiant eraill â statws "anghyflogedig" oherwydd eu bod yn poeni y gallai hynny beryglu eu siawns o gael gwaith. Rhaid gwneud pob ymdrech i ddarparu amgylchedd lle mae pob prentis yn teimlo'n gyfforddus ac yn hyderus i ddatgelu ei anghenion cymorth.

## Trosglwyddo i Brentisiaethau

- Roedd y Grŵp yn cytuno bod y materion a oedd yn ymwneud â threfniadau trosglwyddo i bobl ifanc anabl at ei gilydd yn eang ac y tu hwnt i gwmpas y cynllun gweithredu.  Wedi dweud hynny, cytunwyd bod angen gweithredu er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn ymwybodol o leiaf o gyfleoedd sy'n bodoli pan fyddant yn gadael addysg.
- Bu'r Grŵp yn ystyried adroddiad Comisiynydd Plant Cymru, 'Peidiwch â dal yn ôl.' Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar neges yr adroddiad sef "Mae cyfleoedd cyfyngedig iawn ar gyfer gwaith a phrentisiaethau, heb gyfleoedd cyflogaeth â chymorth – er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod hynny'n arbennig o effeithiol."

## Cymorth i Unigolion

- Roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar becynnau cymorth unigoledig i alluogi'r rhai sydd ag anghenion cymorth i ddilyn llwybr prentisiaeth a symud ymlaen. Yn fwyaf arbennig, nodwyd bod prentisiaid yn cael cymorth drwy gydol eu hyfforddiant, ond mai ychydig iawn o gymorth cyn prentisiaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae bwlch yn y ddarpariaeth gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed sydd â chyflwr iechyd hirdymor o ran gweithgaredd chwilio am waith a pharatoi ar gyfer cyflogaeth. Yn ystod y brentisiaeth, efallai y bydd ar rai prentisiaid anabl angen mwy o amser cyswllt â darparwr y brentisiaeth. Teimlid hefyd y byddai unigolion yn cael budd o gyfweliad ymadael pan fyddant wedi cwblhau'r brentisiaeth er mwyn sicrhau eu bod yn aros mewn cyflogaeth.
- Roedd y Grŵp yn awyddus i Lywodraeth Cymru ddatblygu rhaglen bwrpasol cyn prentisiaeth. Byddai'r rhaglen hon ar lefel is, a byddai wedi'i hanelu at y rhai hynny a allai fod yn cael anhawster i gychwyn Prentisiaeth Sylfaenol ar lefel 2. Byddai'n cynnwys cymorth i symud ymlaen i Brentisiaeth Sylfaenol yn nes ymlaen.

## Cymorth i Gyflogwyr

- Roedd y Grŵp yn cytuno bod teimlad cyffredinol nad oedd cyfran helaeth o'r cyflogwyr yn ymwybodol o'r cymorth a oedd ar gael iddynt wrth gyflogi pobl anabl.  Mae llawer o gamsyniadau ymhlith cyflogwyr o hyd ac mae gwaith i'w wneud er mwyn rhoi'r wybodaeth iawn i gyflogwyr fel bod modd newid y safbwyntiau hyn. Teimlai'r Grŵp y byddai'r rhan fwyaf o gyflogwyr yn hoffi bod yn fwy cynhwysol

ond nad ydynt yn gwybod sut i wneud hynny. Mae hyn yn arbennig o wir am gyflogwyr bach nad oes ganddynt arbenigwyr Adnoddau Dynol.

## Cymorth i Ddarparwyr

- Teimlai'r Grŵp fod angen i ddarparwyr prentisiaethau gael mwy o ganllawiau yn nodi sut i recriwtio, adnabod a chefnogi dysgwyr anabl a'r cyflogwyr sy'n eu recriwtio. Mae llawer o sefydliadau a allai gynnig cymorth arbenigol, ond byddai angen cyfeirio pobl at y rhain, ac mae angen adolygu'r gronfa Cymorth Dysgu Ychwanegol bresennol gan nad oes digon o ddefnydd yn cael ei wneud ohoni ar hyn o bryd. Teimlai'r Grŵp y byddai'n fuddiol pe bai modd i ddarparwyr prentisiaethau ddefnyddio'r gronfa Cymorth Dysgu Ychwanegol mewn partneriaeth â gwasanaethau cefnogi fel gwasanaethau cwnsela iechyd meddwl a hyfforddwyr swyddi.
- Nododd y Grŵp fod angen gwella proses ymgeisio'r Rhaglen Mynediad i Waith ac mae wedi argymell y dylai Llywodraeth Cymru a'r Gweithgor Prentisiaethau Cynhwysol gydgysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau i awgrymu sut y gellid ei gwella.




Caio Jones

## Caio Jones
## Canolfan Iechyd Cricieth

Mae Caio Jones, 18 oed o Lanaelhaearn yn gynorthwyydd derbynfa yng Nghanolfan Iechyd Cricieth ym Mhen Llŷn. Cafodd ei eni â pharlys ymennydd cwadriplegic, sef cyflwr sy'n effeithio ar y breichiau a'r coesau, ac mae'n defnyddio cadair olwyn. Ar hyn o bryd mae'n cael gwersi gyrru ac wedi archebu car wedi'i addasu ac yn gobeithio y bydd yn cael ei yrru erbyn y flwyddyn nesaf.

Ar ôl ysgol, ymunodd â Phrosiect Search, sef rhaglen interniaeth blwyddyn o hyd sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu a/neu awtistiaeth i ddysgu'r sgiliau a chael y profiad i symud i waith cyflogedig. Yng Nghymru, mae'n cael ei gyllido fel rhan o brosiect Engage to Change a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Helpodd y cynllun iddo ddechrau cwrs Sgiliau Bywyd a Gwaith yng Ngholeg Llangefni gan ei roi mewn cysylltiad â swydd derbynfa ar y ward mân-anafiadau yn Ysbyty Gwynedd lle treuliodd chwe mis ar interniaeth â chymorth, gan gwblhau cyrsiau mewn gwasanaeth cwsmeriaid. Mae bellach yn gweithio'n rhan-amser fel cynorthwyydd derbynfa a gweinyddu yn y ganolfan iechyd yng Nghricieth, ar brentisiaeth dwy flynedd. Mae Caio yn dweud ei fod wrth ei fodd yn gweithio gyda phobl. Mae ei rôl yn ymwneud â delio â phresgripsiynau, ateb y ffôn a threfnu apwyntiadau. Mae'n braf iawn cael gweithio yn y GIG gan ei fod yn gadael i iddo roi rhywbeth yn ôl i'r bobl sydd wedi ei helpu.

Pan nad yw'n gweithio, mae wrth ei fodd yn chwarae PlayStation, yn gwrando ar gerddoriaeth a ffermio gyda'i daid. Mae'n dweud fod ei brentisiaeth wedi bod yn hollbwysig iddo ac nad yw'n gwybod beth fyddai'n ei wneud pe na bai'n gweithio. Mae'n credu ei fod yn berson penderfynol iawn ac mae wrth ei fodd yn cyrraedd ei nod.

# Sut mae llwyddiant yn edrych?

Un o nodweddion llwyddiant fyddai Rhaglen Brentisiaethau gynhwysol. Gall unrhyw unigolyn, beth bynnag ei amgylchiadau, ganfod ac ymgymryd â phrentisiaeth a gall fod yn hyderus os bydd yn dewis datgan bod ganddo nam neu gyflwr iechyd y bydd yn derbyn y pecyn cymorth unigoledig y mae arno ei angen er mwyn cwblhau'r brentisiaeth a chael gwaith.

Y nod yw chwalu cynifer ag sy'n bosibl o rwystrau. Bydd Y Gweithgor Prentisiaeth Gynhwysol yn cynghori ynglyn â'r math o gymorth sydd ei angen ar gyfer y rhaglen.

# Sut fyddwn ni'n mesur llwyddiant?

Bydd y cynllun yn ddogfen weithio a bydd cynnydd yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Gweithgor Prentisiaethau Cynhwysol.Cyflwynir yr wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd i Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes yn flynyddol.

Byddwn yn monitro sut y mae'r grŵp hwn o ddysgwyr yn cyflawni eu rhaglen brentisiaeth drwy eu cymharu â dysgwyr eraill. Cynhyrchir adroddiadau'n flynyddol.

**Atodiad A** Cynllun Gweithredu ar Anabledd ar gyfer Prentisiaethau Cynhwysol sy'n nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd. Sylwer bod hon yn ddogfen weithio a disgwylir y bydd yn esblygu yn ystod y cyfnod o dair blynedd.

**Atodiad B** Cyd-destun y cynllun gan gynnwys ymrwymiadau Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau.

# Gwybodaeth Bellach

Dylid anfon pob ymholiad ynglyn â'r cynllun hwn i:

Yr Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau
Llywodraeth Cymru
Ty'r Afon
Heol Bedwas
Caerffili
CF83 8WT
Ebost: DfES-ApprenticeshipUnit@gov.wales

# Dogfennau Cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru

**Prentisiaethau yng Nghymru**
https://llyw.cymru/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/?skip=1&lang=cy

**Cynllun Polisi Sgiliau Prentisiaethau: 'Cysoni'r Model Prentisiaethau ag Anghenion Economi Cymru'.**
https://llyw.cymru/topics/educationandskills/skillsandtraining/apprenticeships/apprenticeships-skills-policy-plan/?skip=1&lang=cy

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**
https://llyw.cymru/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy

**Symud Cymru Ymlaen 2016-2021**
https://llyw.cymru/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy

**Cynllun Cyflogadwyedd**
https://beta.llyw.cymru/cynllun-cyflogadwyedd?_ga=2.245583885.881716399.1542040937-1387020856.1542040937

**Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol**
https://llyw.cymru/topics/people-and-communities/equality-diversity/rightsequality/disability/framework-for-action/?skip=1&lang=cy

**Gweithredu ar anabledd: hawl i fyw'n annibynnol**
https://beta.llyw.cymru/gweithredu-ar-anabledd-hawl-i-fywn-annibynnol?_ga=2.22828466.881716399.1542040937-1387020856.1542040937

# Geirfa

**Yr Adran Gwaith a Phensiynau**
Yr adran o Lywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi Llesiant a Phensiwn. I gael rhagor o wybodaeth am yr Adran a'i gwasanaethau ewch i: https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-work-pensions

**Asesiad Diagnostig**
Asesu perfformiad dysgwr drwy ei gymharu â chyfres o feini prawf a bennwyd ymlaen llaw. Gall asesiadau diagnostig gynnwys mesurau sylfaenol o ddarllen a deall, ysgrifennu, a mathemateg gan ddefnyddio profion wedi'u cymeradwyo'n genedlaethol fel arfer. Gellir ei ymestyn hefyd i asesiad o sgiliau meddal neu sgiliau cyflogadwyedd unigolyn. Mae asesiad diagnostig yn darparu gwybodaeth bwysig am lefel sgiliau bresennol dysgwr a dylid ei ddefnyddio wrth lunio a datblygu Cynlluniau Dysgu Unigol. Rhaid cysylltu asesiad diagnostig â gwaith pellach i fynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a nodwyd.

**Cronfa Cymorth Dysgu Ychwanegol (ALS)**
Cronfa gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cyllid ychwanegol i hwyluso'r cymorth ychwanegol y mae ar rai dysgwyr ei angen er mwyn goresgyn eu rhwystrau'n effeithiol a chael mynediad at addysg a hyfforddiant. Dylai darparwyr ddefnyddio cyllid ALS i ymateb i anghenion dysgwyr unigol. Gellir defnyddio cyllid Cymorth Dysgu Ychwanegol i dalu am gymorth dynol neu gymorth technegol.

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)**
Arian grant gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) a ddefnyddir i hybu swyddi, cyflogaeth, sgiliau a chydraddoldeb yn y farchnad lafur.

**Cyflogadwyedd**
Sgiliau, ymddygiadau a phriodweddau personol a fyddai'n gwneud unigolyn yn fwy tebygol o gael gwaith ac o allu cadw swydd.

**Cymru'n Gweithio Darparwr**
Sefydliad sy'n darparu hyfforddiant i ddysgwyr drwy raglen sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Gall darparwyr ddarparu'r rhaglenni hyn fel contractwr, aelod o gonsortiwm neu is-gontractwr. Ym mhob achos rhaid iddynt fodloni'r telerau a'r amodau sydd ym Manyleb y Rhaglen berthnasol ac mewn canllawiau cysylltiedig.

**Dysgu Seiliedig ar Waith**
Mae rhwydwaith o 18 o ddarparwyr arweiniol wedi cael contract i ddarparu rhaglenni dysgu seiliedig ar waith. Mae'r rhwydwaith hwn yn cynnwys cyfuniad o gwmnïau preifat, sefydliadau addysg bellach, awdurdodau lleol, sefydliadau trydydd sector a chonsortia. Mae'r rhaglenni'n cefnogi dysgwyr cyflogedig a di-waith ac yn cynnwys Prentisiaethau a Hyfforddeiaethau.

**Estyn**
Y corff sy'n arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Mae'n gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan awdurdodau lleol, neu sy'n derbyn cyllid ganddynt;
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau addysg awdurdod lleol i blant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu seiliedig ar waith;
- cwmnïau gofalwyr; a
- dysgu troseddwyr.

Yn ychwanegol at hyn, mae Estyn yn:

- rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru am ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru; ac yn
- hybu lledaenu ymarfer da mewn addysg a hyfforddiant.

I ddarganfod mwy, ewch i www.estyn.gov.wales/language

**Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW)**
yw'r corff cenedlaethol sy'n cynrychioli darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Mae'r aelodau'n amrywio o ddarparwyr hyfforddiant arbenigol bach i sefydliadau cenedlaethol a rhyngwladol, yn ogystal ag

# Geirfa

Awdurdodau Lleol, Sefydliadau Addysg Bellach ac elusennau. Mae'r aelodau'n rhannu ymarfer da ac adnoddau ffisegol, safleoedd ac yn y blaen.

**Fframweithiau Prentisiaeth yng Nghymru**
Y fframweithiau hynny sy'n cydymffurfio â Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru ac sydd wedi cael eu cyhoeddi gan Awdurdodau Cyhoeddi a ddynodwyd ar gyfer y sector gan Weinidogion Cymru. Mae pob fframwaith a gyhoeddir yng Nghymru i'w weld yn:
www.afo.sscalliance.org

**Gwasanaeth Paru Prentisiaethau (AMS)**
Gwasanaeth paru ar-lein i helpu cyflogwyr i ddod o hyd i Brentisiaid addas, a helpu pobl ifanc sydd eisiau bod yn Brentis i ddod o hyd i gyflogwyr. Mae'r wefan hon hefyd yn hysbysebu swyddi gwag ar gyfer rhaglen Twf Swyddi Cymru. Mae'r safle'n cael ei gynnal gan Gyrfa Cymru sydd hefyd yn hysbysebu swyddi gwag gan gyflogwyr eraill ar y safle hwn
www.careerswales.com/cy/

**Pecyn Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST)**
Offeryn diagnostig a ddefnyddir i bennu lefelau llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol dysgwyr pan fyddant yn ymuno â dysgu ôl-16. Mae'n asesiad gorfodol ar gyfer dysgwyr amser llawn neu ran amser sylweddol. Mae'r system, sy'n cael ei chynnal gan Tribal Education, hefyd yn darparu adnoddau dysgu ar-lein sydd wedi'u teilwra ar gyfer anghenion sgiliau unigol dysgwyr.

**Prentisiaeth**
Rhaglen dysgu seiliedig ar waith ar gyfer dysgwyr cyflogedig sy'n dilyn fframwaith prentisiaeth gydnabyddedig ar lefel 3 a gymeradwywyd i'w chyflwyno yng Nghymru. Mae'r gair prentisiaethau hefyd yn cael ei ddefnyddio fel term cyfunol i gyfeirio at Brentisiaethau Sylfaen, Prentisiaethau a Phrentisiaethau Uwch.

**Proses Asesu ac Atgyfeirio Gyrfa Cymru**
Proses yw hon sy'n cael ei gweithredu gan Gyrfa Cymru er mwyn canfod anghenion, rhwystrau, dyheadau a nodau galwedigaethol cwsmeriaid, a chyfeirio'r cwsmer yn dilyn hynny at asesiad pellach, darpariaeth hyfforddiant neu addysg bellach.

Gallai'r broses asesu gynnwys:

- Asesiad diagnostig yn edrych ar rwystrau ac achosion sylfaenol
- Cyfweliad Arweiniad Galwedigaethol
- Darpariaeth ychwanegol Gyrfa Cymru

**Sgiliau Hanfodol**
Nod cymwysterau Sgiliau Hanfodol yw asesu'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr er mwyn dysgu, gweithio a byw'n llwyddiannus. Mae Sgiliau Hanfodol yn cynnig ysgol ddilyniant o Lefel Mynediad 1 i Lefel 3 mewn Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol, Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol, Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol ac o Lefel Mynediad 3 i Lefel 3 mewn Sgiliau Cyflogadwyedd Hanfodol.

Rhagor o wybodaeth:
www.qualificationswales.org/cymraeg/cymwysterau/sgiliau-hanfodol-cymru/

# Atodiad A

| Materion i'w hystyried | Byddwn yn: | Sut fyddwn ni'n gwneud hyn? | Partneriaid Cyfrifol | Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| **MARCHNATA A CHODI YMWYBYDDIAETH** | | | | |
| Diffyg dealltwriaeth yn gyffredinol ymhlith ysgolion, unigolion, gofalwyr a rhieni o'r cyfleoedd y gall prentisiaethau eu cynnig i bobl o bob oed | Codi ymwybyddiaeth o'r ddarpariaeth brentisiaethau ymhlith unigolion, rhieni a gofalwyr. | Ymgyrchoedd marchnata wedi'u targedu sy'n defnyddio astudiaethau achos go iawn er mwyn sicrhau bod pobl anabl yn teimlo bod y rhaglen Brentisiaethau'n llwybr hyfyw iddyn nhw. | Llywodraeth Cymru | 2018/19 |
| | | Sicrhau bod y wefan a deunyddiau sy'n hybu prentisiaethau ar gael mewn fformatau hygyrch a'u bod yn cynnwys negeseuon a deunyddiau sy'n hygyrch i bobl anabl. | Llywodraeth Cymru | 2018/19 |
| | | Annog mwy o ddefnydd o ymgyrch 'Rhowch Gynnig Arni' Llywodraeth Cymru gan bobl ifanc anabl mewn lleoliadau addysg prif ffrwd a lleoliadau addysg arbenigol ac mewn Canolfannau Gwaith. | Llywodraeth Cymru, Darparwyr, Arweinydd Cydraddoldeb Strategol, Bwrdd 'Rhowch Gynnig Arni' | 2018/19 |
| | | Cyhoeddi fersiwn Gymraeg o ddogfen Disability UK, 'Into Apprenticeships – The Guide for Disabled People'. | Llywodraeth Cymru | 2018/19 |

| Materion i'w hystyried | Byddwn yn: | Sut fyddwn ni'n gwneud hyn? | Partneriaid Cyfrifol | Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| Nid yw cyflogwyr yn ymwybodol bob amser o'r cymorth sydd ar gael iddynt nac o fanteision gweithlu amrywiol, gan gynnwys cyflogi pobl anabl. Mae angen cael gwared ar unrhyw ragdybiaethau sydd gan gyflogwyr ynglŷn â chyflogi prentis anabl. | Tynnu sylw cyflogwyr at y cymorth sydd ar gael i bobl anabl sy'n ymgymryd â Phrentisiaethau. | Cynyddu ymwybyddiaeth cyflogwyr o'r cymorth sydd ar gael iddynt drwy ymgyrchoedd marchnata wedi'u targedu, e.e. hyrwyddo rhaglen Mynediad i Waith[1] yr Adran Gwaith a Phensiynau a llinell gymorth Gwasanaeth Cymorth Iechyd Meddwl, Mynediad i Waith, sydd ar gael i gyflogwyr/gweithwyr ym mhob rhan o'r DU. | Llywodraeth Cymru/Busnes Cymru/Cyngor ar Waith Cymru | Parhaus |
| | | Rheolwyr Datblygu Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW), Darparwyr Prentisiaethau, timau ymgysylltu â chyflogwyr ynglŷn â'r Ardoll Brentisiaethau i rannu negeseuon pwysig ynglŷn â'r cymorth sydd ar gael i bobl anabl sy'n ymgymryd â Phrentisiaethau. | NTfW/Llywodraeth Cymru/Darparwyr | |
| | | Edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu offeryn meincnodi, tebyg i'r Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle a ddefnyddir gan Stonewall. Mae'r offeryn meincnodi hwn yn galluogi cyflogwyr i fesur eu cynnydd o ran cynhwysiant LGBTQ+[2]. | Llywodraeth Cymru | 2019/20 |
| | Dathlu amrywiaeth ar y rhaglen brentisiaethau yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. | Nodi modelau rôl a'u defnyddio fel llysgen-hadon yn ystod Wythnos Prentisiaethau.<br><br>Rhyddhau astudiaeth achos â phwyslais ar nodweddion gwarchodedig o leiaf unwaith y flwyddyn.<br><br>Nodi ymgyrchoedd cenedlaethol megis Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl a sicrhau ein bod yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a dulliau ymgysylltu eraill i'w hyrwyddo. | NTfW/Llywodraeth Cymru | Parhaus |

[1]Rhaglen Mynediad i Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau.: https://www.gov.uk/access-to-work
[2]LGBTQ+ - acronym o'r geiriau Saesneg 'Lesbian, Gay, Bi-sexual, Trans, Queer/Questioning' ac eraill.

| Materion i'w hystyried | Byddwn yn: | Sut fyddwn ni'n gwneud hyn? | Partneriaid Cyfrifol | Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| **MEINI PRAWF HYBLYG AR GYFER YMUNO A GADAEL** | | | | |
| Mae llawer o bobl anabl nad ydynt yn gweithio 16 awr pan fyddant yn dechrau mewn cyflogaeth, felly gallai'r isafswm o 16 awr sy'n ofynnol er mwyn bod yn gymwys[3] fod yn rhwystr. | Archwilio opsiynau ar gyfer diwygio meini prawf prentisiaethau er mwyn sicrhau hyblygrwydd i ddiwallu anghenion pob prentis a sicrhau yr un pryd bod y prentis yn dal i allu hyfforddi a chyrraedd y lefel sy'n ofynnol er mwyn bod yn gymwys i gael gwaith yn y sector penodol hwnnw.<br><br>Meysydd i'w harchwilio ymhellach a'u diwygio yw:<br><br>Y gofyniad 16 awr – ystyried sut y gellid cyflwyno dull graddol. Adeiladu hyd at 16 awr yn raddol dros gyfnod penodol. | Sefydlu grŵp mewnol yn Llywodraeth Cymru i adolygu'r system bresennol. Cysylltu â darparwyr ac Arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol NTfW er mwyn sicrhau bod addasiadau ddim ond yn cael eu defnyddio lle bo hynny'n gymwys er mwyn cynnal ansawdd y brand prentisiaethau. | Llywodraeth Cymru/NTfW/ Rhwydwaith darparwyr/ Gweithgor Sgiliau Hanfodol | 2019/20 |
| Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST) a gofynion cymwysterau Sgiliau Hanfodol[4] mewn prentisiaethau fod yn rhwystr yn enwedig i bobl sydd â dyslecsia/dyspracsia. Mae'n bosibl i unigolyn ddatblygu sgiliau galwedigaethol heb fod angen lefelau uchel o sgiliau llythrennedd a rhifedd. Dylai gofynion Sgiliau Hanfodol gael eu hystyried yng nghyd-destun anghenion unigol prentisiaid ac nid yn gyffredinol. | Sgiliau Hanfodol – ystyried sut y gellir addasu lefel cymwysterau Sgiliau Hanfodol i gyfateb i allu ac anghenion pobl anabl er mwyn id-dynt allu symud ymlaen at ofynion y sector. | | | |

[3]Mae angen i brentisiaid gael eu cyflogi am o leiaf 16 awr yr wythnos.

[4]Sgiliau Hanfodol: Nod cymwysterau Sgiliau Hanfodol yw asesu'r sgiliau sydd eu hangen ar ddysgwyr er mwyn dysgu, gweithio a byw'n llwyddiannus. Mae Sgiliau Hanfodol yn cynnig ysgol ddilyniant o Lefel Mynediad 1 i Lefel 3 mewn Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol.

| Materion i'w hystyried | Byddwn yn: | Sut fyddwn ni'n gwneud hyn? | Partneriaid Cyfrifol | Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| **DATA A DATGELU** | | | | |
| Ar hyn o bryd mae ein data am nifer y prentisiaid anabl yn seiliedig ar hunan-ddatganiadau. Gallai prentisiaid fod yn gyndyn i ddatgan bod ganddynt nam neu gyflwr iechyd rhag ofn iddynt golli eu gwaith. | Adolygu ein prosesau er mwyn annog prentisiaid i ddatgelu nam neu gyflwr iechyd; creu amgylchedd cefnogol a diogel i brentisiaid sy'n gwneud datganiad o'r fath. | Comisiynu ymchwil i'n prosesau casglu data presennol ac ystyried a oes angen ailddiffinio ein diffiniad o anabledd fel sydd wedi digwydd yn Lloegr a'r Alban. Angen canfod faint o unigolion sydd ddim yn dweud bod ganddynt nam neu gyflwr iechyd. | Llywodraeth Cymru | 2019/20 |
| Nid rhywbeth sy'n digwydd unwaith yn unig yw asesu anghenion a datgeliadau pobl – mae angen darparu cymorth yn barhaus, nid ar y dechrau yn unig.<br><br>Sylweddoli bod anghenion pobl yn newid wrth iddynt adael amgylchedd yr ysgol a dod yn oedolion. | | Adolygu'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn i brentis ar hyn o bryd. Mae angen i ddatgan gwybodaeth am nam neu gyflwr iechyd gael ei weld fel rhywbeth cadarnhaol – mae angen i'r cwestiynau sy'n cael eu gofyn fod yn gadarnhaol ac annog pobl i fod yn agored, e.e. sut allwn ni eich cefnogi chi? | Llywodraeth Cymru/ Arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth NTfW | 2019/20 |

| Materion i'w hystyried | Byddwn yn: | Sut fyddwn ni'n gwneud hyn? | Partneriaid Cyfrifol | Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| **CYMORTH I UNIGOLION** | | | | |
| Er mwyn sicrhau bod prentisiaethau'n gynhwysol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn mae angen i ni sicrhau bod y cymorth priodol yn cael ei nodi ac yna'n cael ei roi ar waith. Nid yw un dull yn addas i bawb. | Ar y cyd â'n rhwydwaith darparwyr a'r rhwydwaith o wasanaethau cymorth i bobl anabl, byddwn yn datblygu pecynnau cymorth unigoledig. | Ystyried y posibilrwydd o ddarparu cyllid ar gyfer hyfforddwr swyddi/mentor i brentisiaid sydd ag anabledd er mwyn darparu'r cymorth ychwanegol sydd ei angen. | Llywodraeth Cymru | 2019/20 |
| | Drwy Cyngor ar Waith Cymru, byddwn yn gwella prosesau asesu cyn cychwyn Prentisiaethau a rhaglenni eraill Cymru'n Gweithio er mwyn canfod rhwystrau. Byddwn yn sicrhau bod unrhyw rwystrau sy'n cael eu canfod yn cael eu hystyried drwy gymorth unigoledig. | Sicrhau bod y Gronfa Cymorth Dysgu Ychwanegol[5] yn cynnig cymorth ar gyfer anghenion unigol prentisiaid ac y gellir ei defnyddio'n effeithiol gan ddarparwyr sy'n gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau cymorth i bobl anabl. | Llywodraeth Cymru | |
| Mae'r Ddarpariaeth Cyn Prentisiaeth yn hollbwysig i bobl anabl er mwyn sicrhau llwybrau i brentisiaethau | Gwella llwybrau i Brentisiaethau ar gyfer pobl anabl drwy raglenni fel Cymru'n Gweithio ac opsiynau ymchwil ar gyfer datblygu rhaglen "cyn prentisiaeth"gynhwysol, nad yw'n dyblygu'r ddarpariaeth bresennol. | Treialu Rhaglen Cyn Prentisiaeth gynhwysol ar gyfer pobl anabl a phobl sydd â chyflyrau iechyd sy'n gofyn am gymorth, er mwyn iddynt allu cael y cymorth a'r hyfforddiant y mae arnynt ei angen i symud ymlaen i brentisiaeth. Dylai hyn gynnwys addasiadau y mae arnynt eu hangen yn ogystal â chefnogaeth emosiynol a seicolegol drwy hyfforddwr swyddi/mentor neu eiriolydd annibynnol. | Llywodraeth Cymru | |

[5]Cronfa Cymorth Dysgu Ychwanegol (ALS) – Cronfa gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu cyllid ychwanegol i hwyluso'r cymorth dysgu ychwanegol y mae ar rai dysgwyr ei angen er mwyn goresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad effeithiol at addysg a hyfforddiant. Dylai darparwyr ddefnyddio cyllid ALS i ymateb i anghenion dysgwyr unigol. Gellir defnyddio cyllid ALS ar gyfer cymorth dynol neu gymorth technegol.

| Materion i'w hystyried | Byddwn yn: | Sut fyddwn ni'n gwneud hyn? | Partneriaid Cyfrifol | Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| **DYLANWADU AR GYFLOGWYR** | | | | |
| Efallai y bydd ar gyflogwyr angen mwy o anogaeth i dderbyn prentisiaid anabl. Mae ar gyflogwyr eisiau gwneud hyn, ond nid yw llawer ohonynt yn gwybod sut i fynd ati. | Annog cyflogwyr sy'n derbyn prentisiaid i ymuno â chynllun Hyderus o ran Anabledd yr Adran Gwaith a Phensiynau, neu unrhyw gynllun penodol ar gyfer Cymru a allai gael ei ddatblygu yn y dyfodol, fel rhan o weithgaredd sy'n helpu i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n cael eu cyflogi, a thrwy hynny gyflawni'r Cynllun Cyflogadwyedd. | Paratoi canllawiau i gyflogwyr er mwyn hybu manteision cyflogi prentis anabl, ynghyd â chyfarwyddiadau yn nodi sut i fod yn Hyderus o ran Anabledd.<br><br>Cyfeirio at adnoddau a chanllawiau sydd ar gael am ddim.<br><br>Cyfeirio at gymorth ariannol sydd ar gael.<br><br>Cynnal digwyddiadau di-dâl ar y cyd â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i hyrwyddo manteision gweithlu amrywiol. | Llywodraeth Cymru | 2018/19 |
| Ar y cyd â'n rhwydwaith darparwyr a'r rhwydwaith o wasanaethau cymorth i bobl anabl, byddwn yn datblygu pecynnau cymorth i gyflogwyr i'w helpu i gyflogi prentisiaid anabl. | Hybu gweithdrefnau recriwtio cynhwysol ymhlith cyflogwyr drwy ein rhwydwaith darparwyr.<br><br>Ystyried dulliau anariannol o ysgogi cyflogwyr i recriwtio prentisiaid anabl. | Cynnal adolygiad o gymhellion sy'n cael eu defnyddio yng ngwledydd eraill y DU ac argymell cynllun cymhellion priodol i Gymru.<br><br>Bydd y Canfyddwyr Prentisiaethau newydd yn Gyrfa Cymru yn chwilio am gyfleoedd newydd ar gyfer prentisiaethau nad ydynt yn cael eu hysbysebu'n barod gan y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau. Wrth chwilio byddant hefyd yn nodi cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau i bobl anabl. | Llywodraeth Cymru<br><br>Gyrfa Cymru | 2019/20<br><br>Dechrau Medi 2018 |

| Materion i'w hystyried | Byddwn yn: | Sut fyddwn ni'n gwneud hyn? | Partneriaid Cyfrifol | Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| **SICRHAU YMGYSYLLTIAD DARPARWYR** | | | | |
| Mae nifer y dysgwyr anabl sy'n cael eu recriwtio ar gyfer prentisiaethau gan ddarparwyr yn isel. | Parhau i ddylanwadu, monitro ac ysgogi darparwyr i hybu recriwtio unigolion anabl. | Adolygu cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn annog darparwyr i'w ddefnyddio'n fwy effeithiol. | Llywodraeth Cymru | 2019/20 |
| | | Hybu Pecyn Cymorth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth[6] Llywodraeth Cymru. | Arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol | 2018/19 |
| | | Cyflwyno targedau cynnydd canrannol i ddarparwyr prentisiaethau er mwyn cynyddu nifer y bobl anabl sydd mewn Prentisiaeth. | Llywodraeth Cymru | 2018/19 |
| | | Cryfhau trefniadau monitro. | Llywodraeth Cymru | 2019/20 |
| | | Sicrhau bod darparwyr yn ymwybodol o fecanweithiau cymorth a sut i'w defnyddio er mwyn iddynt allu datblygu cymorth unigoledig i brentisiaid anabl mewn partneriaeth â sefydliadau cymorth i bobl anabl. | Llywodraeth Cymru/ Arweinydd Cydraddoldeb Strategol ac Amrywiaeth | 2018/19 |
| | | Darparwyr i nodi faint o ddysgwyr â nodweddion gwarchodedig y maent wedi'u recriwtio yn y datganiad o fudd i'r gymuned. | Llywodraeth Cymru | 2019/20 |
| | | Archwilio cyfleoedd i Estyn gyflwyno trefniadau monitro recriwtio a chymorth i ddysgwyr anabl o dan safon 2 "Lles ac agweddau at ddysgu" y Fframwaith Arolygu Cyffredin. | Llywodraeth Cymru | 2019/20 |
| Dylai darparwyr prentisiaethau fabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd fel y mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud. | Hyrwyddo'r Model Cymdeithasol o Anabledd ymhlith yr holl ddarparwyr prentisiaethau. | Hyrwyddo'r Model Cymdeithasol ymhlith yr holl ddarparwyr a chynnig cyngor ac arweiniad ynglŷn â sut y gallant ei fabwysiadu. | Arweinydd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Strategol | 2018/19 |

[6]Pecyn Cymorth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Llywodraeth Cymru: https://beta.llyw.cymru/pecyn-cymorth-cydraddoldeb-amrywiaeth-chynhwysiant-llywodraeth-cymru-ar-gyfer-darparwyr-dysgu?_ga=2.229203292.1937020365.1542044191-1269274924.1542044191

| Materion i'w hystyried | Byddwn yn: | Sut fyddwn ni'n gwneud hyn? | Partneriaid Cyfrifol | Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| **GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH** | | | | |
| Nid oes digon o gysylltiad rhwng y rhaglen Brentisiaethau a Rhaglenni cyflogaeth/hyfforddiant eraill ar gyfer pobl anabl. | Annog a hwyluso cydweithio rhwng darparwyr prentisiaethau a sefydliadau anabledd a chyflogaeth arbenigol. | Nodi cyfleoedd i gydweithio.<br><br>Parhau i weithio gyda sefydliadau arbenigol gan arwain at ddull mwy ffurfiol o weithredu. Annog darparwyr i ddefnyddio cymhellion cenedlaethol sy'n bodoli'n barod er mwyn datblygu eu gallu a'u gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â phobl anabl. | Llywodraeth Cymru, Sefydliadau cymorth, Darparwyr | 2018/19 |
| Mae angen i lunwyr polisïau prentisiaethau ymgynghori â sefydliadau arbenigol yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn rhai cynhwysol. | Sicrhau bod manyleb y rhaglen yn hybu cynhwysiant a'i bod yn cael ei hadolygu gan y Grŵp Prentisiaethau Cynhwysol.<br><br>Parhau â'r Grŵp Prentisiaethau Cynhwysol er mwyn monitro ac adolygu'r Cynllun Gweithredu ar Anabledd yn rheolaidd. | Datblygu manyleb prentisiaethau cynhwysol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ffurfio trefniadau partneriaeth ffurfiol â sefydliadau cymorth.<br><br>Cytuno ar gylch gwaith ar gyfer y Grŵp Prentisiaethau Cynhwysol | Grŵp Prentisiaethau Cynhwysol | 2018/19 |

| Materion i'w hystyried | Byddwn yn: | Sut fyddwn ni'n gwneud hyn? | Partneriaid Cyfrifol | Blwyddyn |
|---|---|---|---|---|
| **TAITH YRFAOL** | | | | |
| | Cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid allanol o ymrwymiad Gyrfa Cymru i gydraddoldeb ac amrywiaeth.<br><br>Parhau i weithio gyda phobl ifanc, a'u helpu i drosglwyddo'n llwyddiannus o addysg i hyfforddiant ac o bosibl i waith, yn ogystal â helpu pobl o bob oed i ddilyn eu gyrfa a'u nodau dysgu | Bydd Gyrfa Cymru yn anfon copi o'i bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth at randdeiliaid allanol allweddol a sefydliadau sydd wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn cael sylwadau. Er enghraifft Stonewall, Anabledd Cymru, ac yn y blaen.<br><br>Bydd Gyrfa Cymru yn parhau i ofyn am adborth gan ei gleientiaid er mwyn chwilio am ffyrdd o wneud gwelliannau.<br><br>Bydd y Canfyddwyr Prentisiaethau newydd yn Gyrfa Cymru yn chwilio am gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau nad ydynt yn cael eu hysbysebu'n barod ar y Gwasanaeth Paru Prentisiaethau. Byddant hefyd yn chwilio am gyfleoedd ar gyfer prentisiaethau i bobl anabl ac yn hyrwyddo'r cyfleoedd hyn. | Gyrfa Cymru | 2018/19 |
| Hygyrchedd gwefan Gyrfa Cymru | Parhau i ddatblygu gwefan newydd Gyrfa Cymru | Parhau i ddiweddaru a symud gwybodaeth am yrfaoedd i'r wefan newydd https://beta.careerswales.gov.wales/cy<br><br>Sicrhau bod y safle newydd yn cydymffurfio â Safonau Dylunio Llywodraeth Cymru<br><br>Sicrhau y bydd y safle o Safon AA o leiaf, yn unol â'n gwefannau eraill ar blatfform Busnes Cymru | Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru | 2019/20 |

# Atodiad B

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r cyd-destun gwleidyddol sydd y tu ôl i Gynllun Gweithredu ar Anabledd 2018 - 2021 Llywodraeth Cymru ar gyfer Prentisiaethau Cynhwysol.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau

Rhaid i weithredoedd Llywodraeth Cymru fod yn gydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol, fel y nodir yn adran 82 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Mae'r Confensiwn yn gytuniad rhyngwladol sy'n hyrwyddo ac yn diogelu holl hawliau dynol pobl anabl, ac yn sicrhau bod pobl anabl yn cael yr un hawliau yn union â phawb arall. Mae erthyglau'r Confensiwn yn ymdrin â llawer o wahanol feysydd, gan gynnwys hygyrchedd, byw'n annibynnol, addysg, iechyd, a gwaith a chyflogaeth.

O ran byw'n annibynnol, mae Erthygl 19 (Byw'n annibynnol a chynhwysiant yn y gymuned) yn nodi:

- Mae gan bobl anabl hawl gyfartal i fyw yn y gymuned a chymryd rhan ynddi;
- Mae gan bobl anabl yr un hawl i'r un dewis a rheolaeth â phobl nad ydynt yn anabl;
- Rhaid i Lywodraethau gydnabod y dylai pobl anabl gael yr hawliau hyn.

Yn Awst 2017, bu'r Cenhedloedd Unedig yn archwilio i ba raddau roedd y Deyrnas Unedig (DU) yn cydymffurfio â'r Confensiwn. Teithiodd cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru i Genefa ar gyfer yr archwiliad, a oedd yn cael ei arwain gan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Treuliodd y Pwyllgor ddau ddiwrnod yn craffu ar ddulliau'r DU o roi'r Confensiwn ar waith a thynnodd sylw at nifer o feysydd a oedd yn peri pryder ac yr oedd angen eu gwella. Cyhoeddodd Pwyllgor y CU ei Arsylwadau Casgliadol yn dilyn yr archwiliad. Mae'r arsylwadau'n cynnwys argymhellion i wella'r sefyllfa o ran hawliau dynol pobl anabl sy'n byw yn y DU. Nid oedd argymhellion penodol ar gyfer Llywodraeth Cymru, ond roedd nifer o argymhellion cyffredinol i'w rhoi ar waith yng Nghymru.

## Y Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd wedi'i ymgorffori yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl ac mae wedi cael ei addasu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Model Cymdeithasol yn gwahaniaethu rhwng 'nam' ac 'anabledd'. Mae'n cydnabod bod pobl sydd â nam yn cael eu hanalluogi gan rwystrau sy'n bodoli'n aml mewn cymdeithas. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys agweddau negyddol, a rhwystrau ffisegol a sefydliadol, sy'n gallu atal cynhwysiant a chyfranogiad pobl anabl ym mhob agwedd ar fywyd.

- Yn ôl y model cymdeithasol o anabledd, nam yw'r hyn yr arferid cyfeirio ato fel "anabledd" neu gyflwr iechyd. I lawer o bobl anabl (ond nid pob un), mae eu nam yn rhan fawr o'u bywydau a gallai fod yn rhan o'u hunaniaeth bersonol. I rai pobl, bydd angen llawer o waith i reoli eu nam ac efallai y bydd arnynt angen cymorth meddygol parhaus. Mae'r profiad o nam yn rhywbeth personol. Mae profiad pawb yn wahanol. Mae'r profiad hwnnw bob amser yn ddilys ac mae bob amser yn bwysig.
- Anabledd ar y llaw arall yw'r anghydraddoldeb, yr anfantais, y dadrymuso neu'r gwahaniaethu a allai effeithio ar bobl sydd â nam o ganlyniad i rwystrau sy'n eu hatal rhag cael mynediad a chael eu cynnwys. Er enghraifft, mae grisiau yn rhwystr i rywun sydd mewn cadair olwyn; mae gosod lifft yn chwalu'r rhwystr hwnnw. Enghreifftiau eraill o rwystrau yw diffyg darpariaeth Iaith Arwyddion Prydain neu system dolen, dim darpariaeth braille, print bras neu wybodaeth glywedol, diffyg cyfleoedd ar gyfer gwaith rhan-amser ac oriau gwaith hyblyg, diffyg gofal cymdeithasol priodol neu ddealltwriaeth o faterion iechyd meddwl neu anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Mae anabledd felly'n effeithio ar bobl sydd â nam, ond mae'n wahanol i nam.

Mae anabledd yn analluogi rhywun sydd â nam. Gellir cael gwared ar rwystrau. Os ydych yn cael gwared ar y rhwystr rydych yn cael gwared ar yr anabledd.

# Atodiad B

Yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl "mae anabledd yn deillio o'r rhyngweithio rhwng unigolion sydd â namau a rhwystrau o ran agwedd ac amgylcheddol sy'n eu hatal rhag cymryd rhan lawn ac effeithiol mewn cymdeithas ar sail gyfartal ag eraill". Pe bai'r Model Cymdeithasol yn cael ei wireddu'n llawn byddai'n trawsnewid cymdeithas, gan gael gwared ar rwystrau, a byddai hynny'n golygu bod pobl anabl yn gallu chwarae rhan lawn mewn cymdeithas.

Yn y gorffennol, mae'r dull o ymdrin ag anabledd yn y DU wedi bod yn seiliedig ar y Model Meddygol o Anabledd (lle mae nam rhywun yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n ei analluogi). Mae mabwysiadu'r Model Cymdeithasol o Anabledd felly'n galw am newid agwedd, diwylliant a'r ffordd rydym yn gweithio. Drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar chwalu rhwystrau – a gweithio gyda phobl anabl er mwyn canfod atebion – gallwn greu polisi gwell a gwasanaethau gwell i bawb. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud y newid diwylliannol hwn, ond mae'n cydnabod y bydd angen gwaith dros gyfnod i sicrhau bod pob agwedd arall ar ein gwaith yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd.

## Y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu

Gallwn ddosbarthu'r rhan fwyaf o'r rhwystrau y mae pobl anabl yn eu hwynebu, yn fras iawn, i'r meysydd a ganlyn:

Rhwystrau o ran agwedd Gall agweddau unigolion helpu i greu'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu. Gall y penderfyniadau rydych yn eu gwneud, yr iaith rydych yn ei defnyddio, a'ch ymddygiad naill ai greu neu chwalu rhwystrau. Gall rhwystrau o ran agwedd effeithio ar bob agwedd ar gyfranogiad pobl anabl mewn cymdeithas. Yn ychwanegol at hyn, gall gweithredoedd sy'n ynysu neu'n allgáu pobl anabl (hyd yn oed os ydynt yn gwneud hynny'n anfwriadol) gael effaith niweidiol iawn ar iechyd meddwl a lles personol.

Rhwystrau sefydliadol Gall polisïau a gweithdrefnau atal pobl anabl rhag cyfranogi'n llawn mewn addysg, yn y gweithle ac yn y gymuned ehangach, hyd yn oed os na fwriadwyd iddynt wneud hynny. Enghreifftiau o bolisïau sy'n cynorthwyo pobl anabl i gyfranogi'n llawn yw polisïau ar addasiadau rhesymol a chyfleoedd ar gyfer addysg neu gyflogaeth ran-amser a hyblyg. Gall diffyg polisïau o'r fath, neu fethiant i'w rhoi ar waith, achosi rhwystrau sylweddol o safbwynt cydraddoldeb.

Rhwystrau cyfathrebu Mae llawer o wahanol fathau o rwystrau cyfathrebu – er enghraifft, defnyddio iaith anodd ei deall, peidio â darparu dehonglwr Iaith Arwyddion Prydain neu wybodaeth mewn ffurfiau eraill neu osod arwyddion yn rhy uchel i ddefnyddwyr cadair olwyn. Mae rhwystrau cyfathrebu'n effeithio ar bob agwedd ar fywyd pobl anabl. Er enghraifft, os nad yw'r byrddau gwybodaeth mewn gorsafoedd rheilffordd yn cael eu hategu gan gyhoeddiadau sain, mae'n bosibl na fydd pobl sydd wedi colli eu golwg yn gwybod bod angen newid platfform, a gallai hynny olygu eu bod yn colli'r trên. Mae hyn yn amharu ar eu gallu i deithio, gan gyfyngu ar eu cydraddoldeb a'u gallu i gyrraedd addysg, apwyntiadau neu gyflogaeth mewn pryd.

Rhwystrau amgylcheddol Mae'r enghreifftiau mwyaf amlwg o rwystrau amgylcheddol yn cynnwys peidio â darparu mynediad llawn a phriodol i adeilad i ddefnyddwyr cadair olwyn. Ymhlith yr enghreifftiau o rwystrau llai amlwg mae peidio â meddwl sut y byddai pobl anabl yn cyrraedd lleoliad ar gyfer cyfarfod, cynllunio ystafelloedd heb lawer o wrthgyferbyniad ynddynt, sy'n golygu ei bod yn anodd i bobl sy'n ddall neu'n rhannol ddall neu sydd â syndrom Usher gyfranogi'n llawn mewn unrhyw weithgareddau yn yr ystafelloedd hyn, neu beidio â bod yn ymwybodol o'r angen i bylu goleuadau neu ostwng lefel y syn ar gyfer rhai pobl anabl.

## Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n amddiffyn hawliau dynol plant dan 18 oed. Cafodd ei gadarnhau gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig (CU) yn 1989. Yn 1991, cytunodd y Deyrnas Unedig yn ffurfiol i sicrhau bod gan bob plentyn yn y DU bob un o'r hawliau sy'n cael eu rhestru yn

# Atodiad B

y confensiwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r Confensiwn fel sail i wneud polisïau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru er 2004.

Mae 54 o erthyglau yn y Confensiwn. Mae Erthyglau 1-42 yn nodi sut y dylai plant gael eu trin, tra mae Erthyglau 43-45 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i wneud yn siŵr bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae Erthygl 23 yn datgan y dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth i'w galluogi i fyw bywyd llawn ac annibynnol. Yn 2011, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymgorffori hawliau plant mewn cyfraith ddomestig drwy gyflwyno Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r Mesur yn sicrhau bod Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r protocolau dewisol yn rhan annatod o gyfraith Cymru drwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff penodol ystyried y Confensiwn wrth gyflawni swyddogaethau. Mae'r Mesur yn nodi ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried hawliau plant wrth gyflawni unrhyw rai o'u swyddogaethau. Mae Cynllun Hawliau Plant 2014 yn amlinellu'r trefniadau sy'n bodoli er mwyn cydymffurfio â'r ddyletswydd hon ac yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i hawliau plant.

## Deddf Cydraddoldeb 2010 Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Yn fyr, mae'n rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth briodol wrth gyflawni eu swyddogaethau er mwyn gwneud y canlynol:

- Cael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth;
- Cynyddu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu; a
- Meithrin perthynas dda rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Gan adeiladu ar y Ddeddf ei hun, roedd Rheoliadau penodol i Gymru yn gosod sylfaen bellach er mwyn sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru.  Yn unol â'r Rheoliadau hyn, rhaid i gyrff rhestredig baratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd. Wrth ddatblygu eu hamcanion cydraddoldeb, rhaid i awdurdodau gynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau. Gyda'i gilydd, mae'r gofynion statudol hyn yn darparu sail i graffu a herio lleol, ac i gyrff cyhoeddus weithio mewn partneriaeth â phobl anabl er mwyn gwella gwasanaethau lleol. Mae hefyd yn darparu ffordd o adnabod anghenion penodol neu batrymau anfantais, a meddwl am atebion ymarferol i'w rhoi ar waith.

## Dyletswydd i Wneud Addasiadau Rhesymol

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn nodi bod gan gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau ddyletswydd, drwy wneud addasiadau rhesymol, i gael gwared â'r anfanteision sy'n wynebu pobl anabl er mwyn sicrhau bod pobl anabl yn gallu cael mynediad at swyddi, addysg a gwasanaethau yr un mor rhwydd â phobl nad ydynt yn anabl. Cyfeirir at hyn fel y 'ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol'. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i Lywodraeth Cymru yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r ddyletswydd hon i bob pwrpas yn ategu'r Model Cymdeithasol o Anabledd a gall gynnwys, er enghraifft, y canlynol:

- Sicrhau bod cyfathrebiadau a gwybodaeth yn hygyrch i bawb;
- Cyflwyno arferion mwy hyblyg mewn sefydliadau;
- Cael gwared ar rwystrau ffisegol yn yr amgylchedd neu eu lleihau;
- Darparu cymhorthion neu gyfarpar i gynorthwyo gweithiwr i wneud ei waith.

Gall yr hyn sy'n rhesymol ddibynnu ar nifer o ffactorau, ond y nod, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, fydd dileu neu leihau unrhyw anfantais sylweddol a wynebir gan berson anabl o'i gymharu â pherson nad yw'n anabl.